# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 24 Mehefin 2003

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**Ethol Aelodau'r Cynulliad i'r Cyngor Partneriaeth**
*NDM1514* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â pharagraff 1 (1) a (4) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penodi'r personau canlynol i fod yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (10 aelod)
Rhodri Morgan AC
Jane Davidson AC
Sue Essex AC
Ann Jones AC
Huw Lewis AC
Janet Ryder AC
Dai Lloyd AC
Glyn Davies AC
Laura Jones AC
Kirsty Williams AC

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol (10 cynrychiolydd)
Y Cynghorydd T P N Crowley
Y Cynghorydd R V Goodway
Y Cynghorydd J J Hopkins
Y Cynghorydd Syr Harry Jones
Y Cynghorydd J J Jones
Y Cynghorydd D Lloyd Evans
Y Cynghorydd C Mann
Y Cynghorydd E M Jones
Y Cynghorydd S Wilkinson
Y Cynghorydd E W Williams

Cynghorau Cymuned (2 gynrychiolydd)

Y Cynghorydd M Stephens
Y Cynghorydd A Guinn

Awdurdodau Tân (1 cynrychiolydd)
Y Cynghorydd D Rees

Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (1 cynrychiolydd)
Y Cynghorydd M Thomas

Awdurdodau'r Heddlu (1 cynrychiolydd)
Y Cynghorydd M King

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41
**Derbyniwyd y cynnig**

**2.01pm**
**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y10 cwestiwn cyntaf.

**2.48pm**
**Cwestiwn Brys**
Rhodri Glyn Thomas - A wnaiff y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ddatganiad mewn ymateb i'r galwad am gymorth gwladol i ddiogelu mwy na 100 o swyddi ym Mhwll Betws yng Nghwm Afan.

**2.57pm**
**Datganiad Busnes**
Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu'r datganiad busnes.
**Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:**
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 59
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.06pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad: Cynigion ar gyfer Cynllun Datblygu Cynaliadwy y Cynulliad**

**3.37pm**
**Points of Order**
**Ieuan Wyn Jones -** Seeking clarification of the role of the Secretary of State following the recent Cabinet reshuffle.
**Nick Bourne -** Under Standing Order 6.33 on answers to written questions.

**3.48pm**
***Ni chynhelir dadl ar y cynnig hwn. Byddwn yn awr yn pleidleisio arno.*** ???????
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25**

**Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003**
*NDM1509* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:
Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ebrill 2003; ac

2. Yn ystyried:
a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2003
b) Yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ebrill 2003.
c) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.49pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003**
*NDM1510* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ebrill 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*NDM1511* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried:

Adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Mehefin 2003.

2. Yn cymeradwyo
a) Bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ebrill 2003
b) Y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2003.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

The Deputy Presiding Officer took the chair.

**3.59pm**
**Dadl ar fynediad am ddim i Byllau Nofio Canolfannau Hamdden**
*NDM1512* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu cyflwyno’r Cynllun Peilot Nofio am Ddim a lansiwyd yn ystod gwyliau ysgol y Pasg ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru;

2. Yn cydnabod y rhan allweddol y mae partneriaid y Cynulliad yn ei chwarae yn y broses o weithredu’r cynllun peilot;

3. Yn cefnogi’r cynllun peilot cenedlaethol llawn a gynhelir yn ystod gwyliau ysgol yr haf 2003;

4. Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynnig mynediad am ddim i byllau nofio awdurdodau lleol ar gyfer pobl hyn.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 1, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 1, ar ôl 'yng Nghymru' rhoi:
', ac yn cytuno bod amrywiaeth o chwaraeon eraill yn gallu bod yn dda i iechyd a lles, ac yn galw ar y Llywodraeth i ystyried y posibilrwydd o estyn y cynllun fel bod modd i blant ysgol ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon canolfannau hamdden am ddim.'

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3 ar ôl 'gwyliau ysgol yr haf 2003':
'ar yr amod nad yw'n niweidiol i unrhyw fusnesau sydd ynghlwm wrth hyn'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 4, dileu 'croesawu' a rhoi 'nodi' yn ei le

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 4 ar ôl 'pobl hyn':
'ar yr amod nad yw'n niweidiol i unrhyw fusnesau sydd ynghlwm wrth hyn'

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn cydnabod bod nofio'n un o nifer o weithgareddau hamdden sy'n dda i iechyd a lles a ddylai fod ar gael am ddim i blant a phobl ifanc dan 16 oed yng nghyfleusterau awdurdodau lleol.

In accordance with Standing Order 6.21, at least 3 Members requested that the bell be rung.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 16; Ymatal 11; Yn erbyn 30; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd y Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd y Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 46; Cyfanswm 57
**Gwrthodwyd y Gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O Blaid 15; Ymatal 11; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant 6**

**Y cynnig**
O Blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 2; Cyfanswm 57
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.01pm**
**Dadl ar Lyfrgelloedd**
*NDM1513* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cytuno bod y sector llyfrgelloedd a ariennir ag arian cyhoeddus yn gwneud cyfraniad pwysig o ran mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a chefnogi agenda dysgu gydol oes Llywodraeth y Cynulliad; ac

2. Yn croesawu llwyddiant Rhwydwaith y Bobl o ran darparu mynediad am ddim i'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1- Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 1, ar ôl 'Llywodraeth y Cynulliad' ychwanegu:

'yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau bod llyfrgelloedd cefn gwlad yn cael eu cynnal yn hytrach na'u cau.'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 1, ar ôl 'Llywodraeth y Cynulliad' ychwanegu:
', ond yn gresynu bod Cyngor Dinas a Sir Caerdydd yn bygwth cau nifer o lyfrgelloedd.'

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 2, ar ôl 'Cymru' ychwanegu:
', ond yn cydnabod yr angen i roi mwy o gyfle i bobl ddefnyddio'r rhyngrwyd mewn neuaddau cynghorau cymuned a thref, gan sicrhau nad yw cymunedau bach, gwledig yn cael eu hesgeuluso.'

**Gwelliant 4 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn galw am adolygu strwythur y Swyddfeydd Cofnodion Sirol ac archwilio beth fyddai manteision sefydlu Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Genedlaethol o fewn y Llyfrgell Genedlaethol.'

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 51
**Gwrthodwyd y Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd y Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 18; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd y Gwelliant 4**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O Blaid 52; Ymatal 0;Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

Daeth y cyfarfod i ben am 5.37pm

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 25 Mehefin 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**Dogfennau a Osodwyd ar 18 Mehefin 2003**

- Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau Melysyddion Mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2148